

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Ymgynghoriad ar y Bil Addysg (Cymru)

Crynodeb o'r Gwaith Allgymorth

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r gwaith Allgymorth a wnaed fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Bil Addysg (Cymru).

Methodoleg

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg (Cymru), cynhaliodd y tîm Allgymorth dri ymarfer casglu tystiolaeth ar ran y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Roedd yr ymarferion ymgysylltu'n cynnwys dwy set o grwpiau ffocws ac arolwg.

Roedd rhaglenni'r grwpiau ffocws yn canolbwyntio ar ddwy agwedd allweddol ar y Bil Addysg (Cymru), sef:

- y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r asesiad ôl-16 o anghenion o ran addysg a hyfforddiant, a'r;
- darpariaethau sy'n ymwneud â Chyngor arfaethedig y Gweithlu Addysg a'r broses o gofrestru a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu ehangach.

Roedd yr arolwg yn cynnwys holiaduron ar-lein ac ar bapur a oedd yn gofyn i gyfranogwyr roi eu barn ar effaith ganfyddedig cynigion Llywodraeth Cymru i safoni dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol yng Nghymru.



Ystadegau Allweddol

430 Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg


35 Cyfanswm nifer y cyfranogwyr grwpiau ffocws

582 Cyfanswm nifer y sylwadau a wnaed yn yr arolwg

6 Cyfanswm nifer y grwpiau ffocws a gynhaliwyd

Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr yn ôl Rhanbarth

Mae'r diagram hwn yn dangos **cyfanswm** nifer y bobl yr ymgysylltwyd â hwy'n uniongyrchol fel rhan o ymchwiliad y Bil Addysg (Cymru).



Dadansoddiad

Cyfanswm nifer y cyfranogwyr grwpiau ffocws yn ôl rhanbarth:

- Gogledd Cymru: 11
- Canolbarth a Gorllewin Cymru: 7
- Gorllewin De Cymru: 1
- Canol De Cymru: 11
- Dwyrain De Cymru: 5



Tabl Cynnwys

Crynodeb o'r Ymatebion i Arolwg y Bil Addysg
(Cymru).....4

Crynodeb o'r Dystiolaeth o'r Grwpiau Ffocws: Cofrestru'r Gweithlu
Addysg.....
.....13

Crynodeb o'r Dystiolaeth o'r Grwpiau Ffocws: Darparu Anghenion Addysgol
Arbennig ôl-
16.....
.....18



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Ymgynghoriad ar y Bil Addysg (Cymru)

Crynodeb o'r Ymatebion i Arolwg y Bil Addysg (Cymru)

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar y Bil Addysg (Cymru) a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth.*

Methodoleg

Fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Bil Addysg (Cymru), cynhaliodd y tîm Allgymorth arolwg Cymru gyfan ar y darpariaethau a geir o fewn y Bil i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru safoni dyddiadau tymhorau ysgolion. Roedd yr arolwg yn cynnwys fformatiau papur ac ar-lein ac yn gofyn i gyfranogwyr fynegi eu barn ar effaith ganfyddedig newidiadau deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Er ei fod yn arolwg agored, targedwyd y cynulleidfaoedd a ganlyn yn bennaf:

- Rhieni a gwarcheidwaid
- Athrawon (o fewn sector addysg Cymru)
- Plant a phobl ifanc o oedran ysgol

Ystadegau Allweddol

Cyfanswm Nifer yr Ymatebion a Gafwyd: 430

Cyfanswm Nifer yr Ymatebion a Gafwyd Ar-lein: 346

Cyfanswm Nifer yr Ymatebion a Gafwyd ar Bapur: 84


* (Noder bod y ddogfen hon yn cynnwys yr ymatebion a gyflwynwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg).



Crynodeb o'r Ymatebion

Cwestiwn 1 – 1)Yn eich barn chi, a yw cael dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol ar adegau gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru:

- Yn ei gwneud yn fwy cyfleus i chi: 64 (15.0%)
- Yn ei gwneud yn anghyfleus i chi: 158 (37.1%)
- c.Nid yw'n cael unrhyw effaith arnaf: 204 (47.9%)



Cafodd 33 o sylwadau eu gwneud yn amlygu'r **agweddau negyddol** ar y trefniadau presennol, yn cynnwys:

- 17 o sylwadau ar y gost a'r ddarpariaeth o ofal plant
- 12 o sylwadau ar yr anawsterau a geir yn sgîl dyddiadau tymor gwahanol o ran treulio amser gyda theulu a ffrindiau
- Nododd tri pherson fod dyddiadau tymor gwahanol yn atal eu plant rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau traws-sirol
- Amlinellodd un person yr anawsterau o weithio gydag eraill o fewn y maes Addysg

Cafwyd 12 o sylwadau'n amlygu'r **agweddau cadarnhaol** ar y trefniadau presennol, yn cynnwys:

- Amlygodd chwe pherson y manteision o gymryd gwyliau ar adegau tawel
- Nododd chwe pherson fod y cyfleusterau a ddefnyddir gan blant yn llai




prysur ar adegau pan fo rhai ysgolion ar wyliau ac eraill ddim

- Gwnaed dau sylw yn awgrymu na fyddai safoni dyddiadau tymhorau'n cael fawr o effaith, os o gwbl

Cwestiwn 2 – Yn eich barn chi, a yw cael dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol ar adegau gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru:

- Yn cynyddu costau personol i chi: 98 (23.0%)
- Yn lleihau costau personol i chi: 54 (12.7%)
- Nid yw'n cael unrhyw effaith ar eich costau personol: 274 (64.3%)




O'r sylwadau a wnaed:

- Awgrymodd 12 sylw fod costau gofal plant yn ddrutach oherwydd y trefniant presennol
- Awgrymodd pedwar o'r sylwadau a gafwyd fod y trefniadau presennol yn ei gwneud yn rhatach mynd ar wyliau
- Awgrymodd pedwar person y byddai gwneud unrhyw newidiadau'n cael ychydig iawn o effaith
- Amlygodd tri pherson yr anawsterau logistaidd a geir yn sgîl dyddiadau tymhorau a gwyliau amrywiol



Cwestiwn 3 – 3)A fyddai'n well gennych chi pe bai dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol yr un fath drwy Gymru?

- Ydw: 260 (60.7%)
- Nac ydw: 74 (17.3%)
- Nid wyf yn sicr: 94 (22.0%)



Gwnaed 23 o sylwadau o blaid y broses o gysoni dyddiadau tymhorau a gwyliau ledled Cymru, yn cynnwys:

- Saith sylw yn syml yn ailadrodd y byddai'n newid a groesewir
- Chwe sylw yn awgrymu y byddant yn hoffi i ddyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol fod yn gyson â gweddill y DU
- A phum sylw yn nodi y byddai'n ei gwneud yn haws trefnu gwyliau

Gwnaed cyfanswm o saith sylw yn erbyn cysoni dyddiadau tymhorau a gwyliau ledled Cymru, yn cynnwys:

- Pedwar person yn nodi y gallai gynyddu costau gwyliau o bosibl
- Dadleuodd tri pherson dros gadw pethau fel y maent heb egluro pam

Gwnaed cyfanswm o bum sylw ychwanegol, yn cynnwys:

- Dau sylw yn hyrwyddo gwyliau byrrach, mwy gwasgarog, drwy gydol y flwyddyn
- Dau sylw yn awgrymu y dylai'r broses o gysoni dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol fod yn gymwys i ardaloedd awdurdodau lleol unigol (yn



hytrach na ledled Cymru)

- Ac un sylw yn galw am wyliau hwy

Cwestiwn 4 – 4)A gredwch bod unrhyw resymau penodol pam y byddai rhai ysgolion am osod dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol ar adegau gwahanol i'r mwyafrif o ysgolion yng Nghymru?


O'r sylwadau a wnaed:

- Dywedodd 74 nad oeddent yn gwybod am unrhyw reswm y byddai ysgolion am bennu dyddiadau gwahanol i eraill ledled Cymru
- Nododd 39 o bobl resymau crefyddol
- Nododd 26 hyblygrwydd
- Dywedodd 22 er mwyn cael manteisio ar wyliau rhatach
- Awgrymodd 16 ei bod yn gwneud synnwyr i dymhorau ysgol gael eu safoni
- Awgrymodd 15 oherwydd digwyddiadau lleol/rhanbarthol
- Nododd tri er mwyn gwneud iawn am y dyddiau a gollir oherwydd tywydd drwg
- Nododd un person yr un: rhesymau ariannol, darparu ar gyfer tymhorau hwy i dwristiaid, a thraddodiadau ysgolion preifat.
- Gwnaed nifer o sylwadau unigol hefyd yn awgrymu y gallai safoni dyddiadau wella presenoldeb, y dylai dyddiadau fod yr un fath yng Nghymru ac yn Lloegr ac na ddylai ysgolion crefyddol gael eu trin yn wahanol i ysgolion eraill.



Cwestiwn 5 – A ddylai rhai ysgolion, er enghraifft, ysgolion ffydd, fedru pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol eu hunain?

- Dylent 106 (25.0%)
- Na ddylent 209 (49.3%)
- Efallai 109 (25.7%)




O'r sylwadau a wnaed:

- Nododd 22 mai dim ond gwyliau crefyddol ddylai gyfrif fel rhesymau y dylai rhai ysgolion allu pennu eu dyddiadau eu hunain
- Anghytunodd 18 gan nodi na ddylid cael unrhyw eithriadau
- Roedd chwe pherson am ddiddymu ysgolion ffydd
- Gwnaed dau sylw yn awgrymu y dylai pob ysgol bennu ei dyddiadau ei hun
- Dywedodd dau y dylai ysgolion allu pennu eu dyddiadau eu hunain ar gyfer digwyddiadau lleol/rhanbarthol pwysig.
- Nododd un person y dylai pob ffydd, nid y ffydd Gristnogol yn unig, allu pennu ei dyddiadau ei hun.
- Nododd un person ei bod yn bwysig bod athrawon a phlant yn cael digon o seibiant o'r ysgol, ac mai hynny ddylai fod y flaenoriaeth.



Cwestiwn 6 – A ddylai Llywodraeth Cymru fedru penderfynu ar ddyddiadau tymhorau ysgol, a phan na fydd Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu'n gallu cytuno â'i gilydd?

- Dylai: 274 (64.6%)
- Na ddylai: 63 (14.9%)
- Efallai: 87 (20.5%)




O'r sylwadau a wnaed:

- Gwnaed 15 o sylwadau o blaid ymyrraeth Llywodraeth Cymru
- Awgrymodd 13 o sylwadau y dylid dod i gytundeb heb ymyrraeth Llywodraeth Cymru
- Roedd pum sylw o blaid cytundeb ond nad oeddent yn cytuno ag ymyrraeth Llywodraeth Cymru
- Nododd dau sylw y byddai'n well ganddynt i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad
- Roedd yn well gan un i gyrff llywodraethu benderfynu
- Roedd yn well gan un i gorff annibynnol benderfynu
- Ac awgrymodd un mai penaethiaid ddylai wneud y penderfyniad.



Cwestiwn 7 – Os byddai tymhorau ysgol yr un fath drwy Gymru, a ydych o'r farn y dylid cael rhai eithriadau – er enghraifft, pan fydd digwyddiadau o bwys yn cael eu cynnal mewn rhanbarth?

- Dylai: 243 (57.0%)
- Na ddylai: 94 (22.1%)
- Efallai: 89 (20.9%)




O'r sylwadau a wnaed:

- Nododd 28 o sylwadau y dylid cael eithriadau ar gyfer digwyddiadau o bwys
- Nododd 10 o bobl na ddylid cael unrhyw eithriadau o gwbl
- Dywedodd naw person y dylid cael eithriadau ond ni wnaethant nodi rhesymau pam
- Dywedodd pum person y dylid cael eithriadau yn dibynnu ar natur y digwyddiad
- Nododd tri pherson y dylai Llywodraeth Cymru ystyried digwyddiadau o bwys wrth bennu dyddiadau tymhorau ysgol
- Dywedodd dau y dylai ysgolion bennu eu heithriadau eu hunain



Cwestiwn 8 – A oes gennych unrhyw deimladau neu safbwyntiau eraill?



O'r sylwadau a wnaed:

- Nododd 52 eu bod yn cytuno â'r egwyddor o safoni dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol
- Awgrymodd 27 o bobl y dylid cael gwyliau byrrach ac amlach wedi'u gwasgaru
- Nododd 12 o bobl eu bod o'r farn y byddai hyn yn arwain at gostau gwyliau rhatach
- Nododd naw person y byddent am i ysgolion gadw'r hyblygrwydd hwnnw i bennu eu dyddiadau tymhorau a gwyliau eu hunain
- Dadleuodd naw person y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar safonau
- Nododd chwe pherson y dylid gadael y sefyllfa bresennol fel y mae
- Gwnaed chwe sylw y dylai diwrnodau HMS fod yn gyson ledled Cymru
- Gwnaeth pum person sylw ynghylch y gost a'r ddarpariaeth o ofal plant
- Gwnaeth un person sylw ar yr angen am fwy o weithgareddau i blant yn ystod y gwyliau
- Gwnaeth un person y pwynt bod gormod o awdurdodau lleol yng Nghymru



- Nododd un person fod y newidiadau'n wastraff arian



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymgynghoriad ar y Bil Addysg (Cymru): Cofrestru'r Gweithlu Addysg

Crynodeb o'r dystiolaeth o'r grwpiau ffocws:

Lluniwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil at ddefnydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gareth England o'r Gwasanaeth Ymchwil drwy ffonio

estyniad 8096

E-bost: gareth.england@cymru.gov.uk

Cefndir

Yn ystod mis Medi 2013, fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y *Bil Addysg (Cymru)*, cynhaliodd Tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol nifer o grwpiau ffocws i gael barn ar yr agwedd gofrestru ar y Bil, sef y **darpariaethau sy'n ymwneud â Chyngor y arfaethedig Gweithlu Addysg a chofrestru a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu addysg ehangach.**

Cynhaliwyd grwpiau ffocws yng ngogledd a de Cymru, gyda'r tîm Allgymorth yn targedu aelodau undebau llafur y byddai angen iddynt gofrestru o dan ddarpariaethau'r Bil, cynorthwywyr dosbarth, gweithwyr ieuenctid a thiwtoriaid dysgu yn seiliedig ar waith. Roedd y cyfyngiadau amser ar ran y gynulleidfa darged a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chynnal ymgynghoriad yn ystod misoedd yr haf yn golygu nad oedd nifer o'r sefydliadau y cysylltwyd â hwy yn gallu cymryd rhan yn y rhaglen grwpiau ffocws.

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda dau sefydliad cyfranogi gwahanol: (a) aelodau o **UNSAIN** a (b) gweithwyr ieuenctid o **Wasanaeth Ieuenctid Wrecsam**. Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd o fewn y gweithlu addysg ehangach, yn cynnwys gweithwyr ieuenctid, cynorthwywyr dosbarth, cynorthwywyr cymorth dysgu a thiwtoriaid. **Gyda'i gilydd roedd 11 o gyfranogwyr.**

Mae'r adran a ganlyn yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau.



Cofrestru'r gweithlu addysg

Cwestiwn 1 – A ydych yn ystyried eich hun fel rhywun sy'n gweithio yn y 'gweithlu addysg'?

Roedd y ddau grŵp – aelodau UNSAIN a'r gweithwyr ieuencid o Wrecsam – o'r farn eu bod yn rhan o'r gweithlu addysg. Roedd natur y gwaith a wnaed gan aelodau'r grŵp yn rhan o'r system addysg a theimlai grwpiau eu bod yn cael eu hystyried yn bartneriaid a rhan o'r ddarpariaeth addysg ehangach.

Cwestiwn 2 – Ydych chi eisiau cofrestru gyda chorff cofrestru proffesiynol, fel y mae athrawon yn ei wneud ar hyn o bryd?

Roedd y dddau grŵp o blaid cofrestru gyda chorff proffesiynol. Teimlwyd yn gyffredinol y byddai bod yn aelod o gorff o'r fath yn gwella'r gydnabyddiaeth o alwedigaethau fel gwaith ieuencid, i'r un lefel ag addysgu. Teimlwyd hefyd y byddai bod yn aelod o sefydliad proffesiynol yn sicrhau **atebolrwydd** ar gyfer y galwedigaethau gan sicrhau y byddai'r rheini sy'n gweithio o'u mewn yn glynu at bolisiau, gweithdrefnau a chodau ymddygiad.

Cododd nifer o themâu o'r grwpiau; roedd **cymwysterau** yn y broses gofrestru yn un ohonynt. Teimlodd un grŵp y byddai angen pennu **cymhwyster gofynnol** er mwyn cael eich cydnabod gan y corff proffesiynol. Yn ei dro, cododd hyn y cwestiwn o gynrychiolaeth ar gyfer y **rheini sy'n gweithio o fewn yr alwedigaeth nad oedd ganddynt gymwysterau** ac a fyddai hyn yn creu grŵp o bobl a fyddai'n cael eu heithrio o fod yn aelodau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gellid defnyddio cymhwyster gofynnol o'r fath i wella safonau ac annog cyflogaion i weithio tuag at gael cymwysterau.

Trafodwyd hefyd y diffiniad o **swyddi o fewn yr alwedigaeth** a'r amwysedd y gellid ei greu yn sgîl hyn wrth benderfynu pwy all ymuno â'r sefydliad. Cafodd y pwynt y gall y term 'gweithiwr ieuencid' fod yn gymwys i wirfoddolwr a gweithiwr proffesiynol o safon gradd ei grybwyll mewn perthynas â hyn, yn ogystal â'r mater o ran pobl sy'n cyflawni rolau tebyg y tu allan i'r gweithlu addysg. Yn yr un modd, gall yr **amrywiaethau rhwng y rolau a'r cyfrifoldebau** a gyflawnir gan unigolion sydd wedi'u cymhwyso i'r un lefel amrywio rhwng awdurdodau lleol fel y gall



cyllidebau ysgolion ac adnoddau ar gyfer hyfforddi staff, a theimlwyd y dylid ystyried yr anghysondebau hyn fel rhan o'r broses o sefydlu unrhyw gorff proffesiynol newydd.

Cwestiwn 3 – Sut glywsoch chi am y cynnig i gofrestru math ychwanegol o weithwyr yn y gweithlu addysg ac a oeddech yn ymwybodol o unrhyw ymgynghoriad?

Roedd lefel yr ymwybyddiaeth o'r cynigion a'r ymgynghoriad yn amrywio ymhlith y cyfranogwyr, ac **ychydig o ymwybyddiaeth, os o gwbl**, oedd gan fwyafrif y cyfranogwyr o'r cynlluniau neu'r ymgynghoriad hyd nes y cysylltwyd â hwy fel rhan o'r broses allgymorth.

Roedd rhai'n ymwybodol o gynlluniau tybiannol ar gyfer creu corff newydd er bod rhywfaint o ddryswch o ran graddau cynrychiolaeth y corff e.e. yn cynnwys pobl fydda'n gweithio ym maes addysg uwch.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno â Llywodraeth Cymru ei fod yn ymddangos yn anghyson bod yn rhaid i athrawon gofrestru ond nad oes angen i weithwyr proffesiynol eraill yn y gweithlu addysg wneud hynny?

Cafwyd **cytundeb cyffredinol ar y pwynt hwn**. Teimlwyd y byddai hyn yn gwella cysondeb yn y ffordd y mae gweithwyr sydd â lefelau tebyg o gymwysterau yn cael eu trin ac y byddai cynrychiolaeth o ran safonau proffesiynol a statws o fewn yr alwedigaeth.

Codwyd hefyd yn yr ymatebion bwynt ynghylch i ba raddau y byddai'r manteision hyn yn ymestyn i'r galwedigaethau gwahanol, sef a fyddai'r gweithlu addysg ehangach yn cael yr un lefel o gefnogaeth ag athrawon o ran materion fel hyfforddiant a datblygiad a chyfrinachedd a chynrychiolaeth mewn amgylchiadau eithriadol? e.e. achosion amddiffyn plant.

Cwestiwn 5 – Bydd gan y corff cofrestru newydd gyfrifoldebau am roi cyngor a hyrwyddo gyrfaedd i'r holl weithlu addysg, ac am drefniadau ymsefydlu ac arfarnu. Ydych chi'n credu y byddai hyn o fantais i bobl sy'n gweithio ym myd addysg fel chi? Beth fyddai'r manteision neu anfanteision posibl yn eich barn chi? Beth ydych chi'n ei feddwl y gallai'r manteision a'r anfanteision posib fod? Ydych chi'n meddwl y byddai hyn yn cael effaith cadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n gweithio ym maes addysg fel rydych chi?

Roedd teimlad ymhlith y grwpiau ffocws y byddai'r corff proffesiynol yn cael **effaith gadarnhaol o ran dilyniant gyrfa** ac y byddai'n helpu i hyrwyddo cysondeb



a safonau ar draws yr awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys y mater ynghylch **tâl teg i staff sy'n adlewyrchu eu cymwyseddau a'u cyfrifoldebau**, yn ogystal â'r mater ehangach o hyrwyddo gwaith ieuenctid fel galwedigaeth. Mynegodd un grŵp hefyd y posibilrwydd o gael statws tebyg i'r ANG (Athro Newydd Gymhwys) ar gyfer gweithwyr ieuenctid.

Mynegodd un grŵp ffocws yr anfanteision posibl ynghylch **materion trawsffiniol** ac a fyddai glynu at system y DU gyfan yn fwy buddiol o ran llifau trawsffiniol o weithwyr. Gwnaed cymariaethau â system yr Alban lle byddai'n rhaid i'r rheini sydd am weithio yn yr Alban ddangos cymwyseddau a chael hyfforddiant yn unol â chanllawiau'r Alban. Teimlwyd y byddai llwyddiant unrhyw system debyg yng Nghymru yn dibynnu'n fawr ar safonau a chosteffeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru.



Cwestiwn 6 – Faint o ffi cofrestru y credwch y byddai'n rhesymol i bobl dalu?

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n credu y dylai'r ffi cofrestru hon fod yn amrywiadwy yn seiliedig ar incwm, neu a ddylai fod gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol gategorïau o waith neu a ddylai fod ffi safonol i bawb?

Roedd amrywiaeth barn ymhlith y cyfranogwyr mewn perthynas ag unrhyw ffi gofrestru. Dadleuodd rhai aelodau o un o'r grwpiau ffocws **na ddylid cael unrhyw ffi i ymuno**, ond **derbyniwyd yn gyffredinol y byddai rhyw lefel o ffi yn briodol**.

Roedd barn y rheini a oedd yn cytuno ar godi ffi yn amrywio ynghylch sut y dylid ei chyfrifo. Teimlai un grŵp y dylai amrywio yn unol â **gradd y gweithiwr** tra teimlai'r grŵp arall y dylai fod yn **seiliedig ar incwm**, gan ddadlau y byddai'n anodd cynnal ffi sy'n seiliedig ar gategorïau gwahanol o waith oherwydd y diffyg cysondeb o ran arferion awdurdodau lleol yng Nghymru.

Fodd bynnag, cytunwyd y dylid sicrhau **cydraddoldeb o fewn y galwedigaethau**, ac y dylai unrhyw gymorthdaliadau ar gyfer staff penodol e.e. athrawon, gael eu hadlewyrchu o fewn y galwedigaethau eraill sy'n cael tâl is. Teimlai un grŵp y dylai hyn hefyd fod yn gymwys i fudd-daliadau eraill, e.e. rhyddhad treth ar ffioedd undebau llafur.

Teimlwyd y gallai cylch gwaith wedi'i ehangu unrhyw gorff proffesiynol newydd arwain at adolygu lefelau presennol y cyfraniadau er mwyn gallu cefnogi gwaith y corff. Er enghraifft, pe byddai lefelau presennol yr hyfforddiant sydd ar gael i athrawon yn cael eu hadlewyrchu hefyd yn y galwedigaethau ehangach, byddai goblygiadau i hynny yng nghyswllt ffioedd cofrestru.

Materion eraill – penodi'r corff proffesiynol

Cododd un grŵp ffocws y mater ynghylch sut y caiff y corff proffesiynol newydd ei hun ei benodi a'i recriwtio. Nododd y grŵp yr hoffent weld **proses drylowy, ddemocrataidd o recriwtio**, gan awgrymu y dylai'r Cynulliad ei hun fod yn rhan o'r broses recriwtio, nid y llywodraeth ar y pryd yn unig.

Rhestr o grwpiau ffocws:

Gwasanaeth Ieuencid Wrecsam

UNSAIN



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymgynghoriad ar y Bil Addysg (Cymru): darpariaeth AAA ôl-16

Crynodeb o'r dystiolaeth o'r grwpiau ffocws:

Lluniwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil at ddefnydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gareth England o'r Gwasanaeth Ymchwil drwy ffonio

estyniad 8096

E-bost: gareth.england@cymru.gov.uk

Cefndir

Yn ystod mis Medi 2013, fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y *Bil Addysg (Cymru)*, cynhaliodd Tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol nifer o grwpiau ffocws i gael barn ar yr agwedd darpariaeth AAA ôl-16 ar y Bil, sef y darpariaethau sy'n ymwneud â'r asesiad ôl-16 o anghenion ychwanegol o ran addysg a hyfforddiant. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnig rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i awdurdodau lleol dros asesu anghenion dysgwyr ôl-16 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a sicrhau darpariaeth ar eu cyfer.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws yng ngogledd a de Cymru, gyda'r tîm Allgymorth yn targedu cydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion a staff mewn adrannau addysg awdurdodau lleol y gallai'r darpariaethau effeithio arnynt. Cysylltwyd â 13 o adrannau awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws. Roedd y cyfyngiadau amser ar ran y gynulleidfa darged a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chynnal ymgynghoriad yn ystod misoedd yr haf yn golygu nad oedd nifer o'r sefydliadau y cysylltwyd â hwy yn gallu cymryd rhan yn y rhaglen grwpiau ffocws.

Cynhaliwyd **pedwar grŵp ffocws**, yn cynnwys pum awdurdod lleol cyfranogi gwahanol: **Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam**. Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio ym maes AAA o fewn yr awdurdodau, yn cynnwys cydgysylltwyr AAA, Penaethiaid Gwasanaeth a seicolegwyr addysgol. **Gyda'i gilydd roedd 24 o gyfranogwyr.**



Mae'r adran a ganlyn yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau.



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Darpariaeth AAA ôl-16

Cwestiwn 1 – A ydych yn credu bod unrhyw broblemau gyda'r ffordd y mae darpariaeth arbenigol ôl-16 yn cael ei mesur ac yna ei darparu ar hyn o bryd, ac os fellym beth ydynt?

Cododd nifer o themâu allweddol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Ymhlith y rhain roedd **gweithio trawsasiantaethol**, yn cynnwys y cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a Gyrfa Cymru. Nododd un grŵp fod problemau'n aml gyda chyfathrebu rhwng sefydliadau, gan olygu nad oedd pawb bob amser yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Nododd un grŵp fod cyfathrebu llawer yn well rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol na rhwng ysgolion a Gyrfa Cymru.

Gwnaeth rôl **Gyrfa Cymru** ei hun arwain at rywfaint o sylwadau hefyd, gydag un grŵp yn dibynnu'n fawr ar ei arbenigedd i leoli myfyrwyr, gan deimlo bod gofyn iddo (GC) ymdrin â llwyth gwaith cynyddol â llai o gyllid. Nododd grŵp arall y byddai symud rôl Gyrfa Cymru o fewn yr awdurdod lleol yn creu adran hollol newydd, i bob pwrpas, ond o ran logisteg y gallai wneud y broses gyfan yn symlach; y prif fater fyddai **sicrhau'r arbenigedd perthnasol o fewn yr awdurdod lleol**. Cafodd y ffaith nad oes fframwaith cyfreithiol wrth drosglwyddo cyfrifoldeb dros bobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio i Gyrfa Cymru ei godi fel mater hefyd. Cafodd y cynigion blaenorol ar gyfer 'gweithiwr allweddol' a fyddai'n cefnogi myfyrwyr yn ystod y cyfnod pontio hwn eu crybwyll gan un grŵp yn rhywbeth a fyddai'n gwella'r sefyllfa bresennol.

Cafodd y mater o **amseru** ei godi hefyd, gyda dau grŵp yn nodi fod yr amser sy'n mynd heibio rhwng ceisiadau am leoliadau a phenderfyniadau hwyr i'w hariannu yn creu problemau, a bod y broses o nodi nifer sylweddol o ddatganiadau'n hwyr yn golygu bod llawer yn cael eu gwneud ychydig cyn dechrau'r tymor ysgol. Roedd hyn yn cael effaith ar yr ymgais i ddarparu'r lleoedd angenrheidiol, gan achosi ansicrwydd i fyfyrwyr a'u teuluoedd.

Cafodd **materion o ran gallu** hefyd eu nodi yn yr adran hon, gydag un grŵp yn nodi fod cydgysylltwyr AAA ysgolion yn cael eu hymestyn. Nodwyd y bydd angen i rai myfyrwyr nad oes ganddynt ddatganiad blaenorol gael asesiad cyn addysg ôl-16 ac y gall hyn greu pwysau o ran amser ac adnoddau i awdurdodau lleol. Nodwyd bod y gwahaniaeth yn lefel y gefnogaeth ar gyfer AAA ôl-16 a phlant oedran ysgol hefyd yn fater, gydag un grŵp yn nodi fod y rheini sy'n cael eu hadnabod yn gynnar yn cael eu cefnogi'n well.

Cwestiwn 2 – A ydych yn credu bydd rhoi mwy o rôl i awdurdodau lleol o ran dysgwyr ôl-16 yn rhoi gwell dilyniant a chyfnod pontio i ddysgwyr ym maes



addysg bellach?

Cododd nifer o themâu eang o'r cwestiwn hwn, gyda chydysyniad cyffredinol rhwng y grwpiau ar brif effeithiau unrhyw rôl fwy ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd y prif faterion yn ymwneud â **gallu a goblygiadau ariannol** y cynigion.

Nododd nifer o grwpiau y byddai gorfod asesu myfyrwyr hyd nes eu bod yn 25 oed yn golygu cynnydd sylweddol yn y baich gwaith, gydag un grŵp yn dweud na fyddent yn gallu cyflawni'r rôl ar hyn o bryd. Teimlai'r rhan fwyaf o'r grwpiau bod angen **crافu ar effaith ariannol y cynlluniau** gan y byddai unrhyw faich gwaith ychwanegol yn cael effaith ar gyllidebau.

Cafodd y mater ynghylch **arbenigedd staff** hefyd ei grybwyll gan nifer o'r grwpiau. Teimla llawer nad oedd gan yr awdurdod lleol yr arbenigedd ar hyn o bryd i gyflawni cylch gwaith ehangach y Bil. Cafodd prinder y staff arbenigol mewn rolau allweddol, e.e. seicolegwyr addysgol, hefyd ei grybwyll. Amlinellwyd hefyd yr arbenigedd a ddarperir gan Gyrfa Cymru ar hyn o bryd a'r anawsterau o gopïo'r gwaith hwn o fewn awdurdodau lleol. Nododd un grŵp ei bod yn debyg mai awdurdodau lleol fyddai yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gwaith hwn ond y byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn staff a'r gwaith o ddatblygu arbenigedd newydd. O ganlyniad i hyn, nododd grwpiau fod yr **hyfforddiant** sydd ar gael i ddatblygu staff presennol a llenwi'r bwlch sgiliau presennol mewn awdurdodau lleol yn ffactor allweddol hefyd. Cafodd **natur yr asesiad** ei hun hefyd ei grybwyll gan un grŵp yn y cyd-destun hwn, gyda diffyg eglurder ynghylch pa wybodaeth y byddai ei hangen fel rhan o'r gwaith o asesu AAA hyd at 25 oed.

Cafodd **gweithio amlasiantaethol** ei grybwyll gan y grwpiau, gyda llawer yn nodi fod nifer o awdurdodau lleol yn gwneud llawer o'r gwaith hwn ar hyn o bryd gyda'r consortiwm yn arwain y ffordd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol eraill yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol, adrannau gwasanaethau cymeithasol a Gyrfa Cymru. Cafwyd sylwadau ynghylch sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar drefniadau fel y rhain, a chytunodd un grŵp y dylid cynnwys gweithio amlasiantaethol yn y bil er mwyn sicrhau cysondeb. Cafwyd pryderon hefyd y gallai dealltwriaeth leol Gyrfa Cymru gael ei cholli a theimla rhai grwpiau y dylai GC barhau i gael rôl o dan unrhyw gynlluniau newydd.

Ar gyfer nifer o grwpiau, roedd **gweithio trawsffiniol** hefyd yn broblem. Teimlwyd nad oedd yn glir pa effaith y byddai'r darpariaethau'n eu cael pe byddai person ifanc yn symud i awdurdod lleol arall neu i Loegr.

Gwnaeth y grwpiau sylw hefyd ar y diffyg eglurder o ran **y cyfnod pontio**.

Gofynnodd un grŵp am eglurhad ar y pwynt pan newidir o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion a chafwyd ymholiadau hefyd ynghylch cyfrifoldeb pwy



fyddai i ddarparu datganiadau mewn rhai amgylchiadau, e.e. pe byddai myfyriwr am fynd i weithio ar adeg y datganiadau ôl-16 ac ôl-25.

Cwestiwn 3 – Gall colegau addysg bellach prif ffrwd sy'n gallu diwallu anghenion dysgwyr AAA wneud cais uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am gyllid atodol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn hytrach na gwneud cais i'r cyngor am yr arian hwn. Mae Llywodraeth Cymru eisiau i geisiadau am gyllid atodol barhau yn y modd hwn. Oes gennych chi farn am hyn? Oes gennych farn ar hyn?

Cafwyd barn gymysg gan y grwpiau ar y cwestiwn hwn. Teimlai un grŵp po leiaf oedd yn gorfod cael ei reoli'n ganolog gan yr awdurdod lleol, y gorau, gyda grŵp arall yn ffafrio parhau gyda'r system bresennol ond gyda chynllunio gwell a chyllid wedi'i neilltuo.

Fodd bynnag, nododd grŵp arall os mai diben y Bil oedd dod â dyletswydd darpariaeth AAA ôl-16 o dan nawdd awdurdodau lleol, yna dylai unrhyw adnoddau ar gyfer ceisiadau am gyllid atodol gael eu rhoi iddynt hefyd. Cafodd yr anghysondebau yn gyffredinol o ran y cyllid a ddarperir i ddysgwyr AAA hefyd eu crybwyll gan un grŵp.

Cwestiwn 4 – Mae'r darpariaethau yn y Bil o ran dysgwyr ôl-16 yn un rhan o ymgynghoriad ehangach a gynhaliwyd yn 2012 ar ddiwygio'r fframwaith AAA a rhoi sail gyfreithiol i'r cydsyniad o 'anghenion dysgu ychwanegol'. Oes gennych chi farn ynghylch a ddylai hyn i gyd fod wedi cael ei gyfuno mewn un darn o ddeddfwriaeth yn hytrach na chynnwys yr elfennau ôl-16 ar wahân yn y Bil Addysg (Cymru)? Oes gennych farn ar p'un a ddylai hyn i gyd fod wedi'i gyfuno mewn un darn o ddeddfwriaeth yn hytrach na'r elfennau ôl-16 yn cael eu datblygu ar wahân yn y Bil Addysg (Cymru)?

Teimlai pob grŵp y byddai'n well pe byddai pob darpariaeth a oedd yn ymwneud ag AAA wedi'i hymgorffori mewn **un darn o ddeddfwriaeth** a allai amlygu diwygiad ehangach y fframwaith AAA. Fodd bynnag, cydnabu un grŵp y gallai darn o ddeddfwriaeth o'r fath fod yn anferth o bosibl.

Cwestiwn 5 – A hoffech roi sylwadau am y modd y caiff anghenion dysgwyr eu diwallu, yn arbennig rhai ôl-16?

Nododd dau grŵp y pwysigrwydd o **ddarpariaeth leol** gan fynegi barn y dylai mwy fod ar gael ledled Cymru. Teimlai rhai nad oedd llawer ar gael; er bod yr arbenigedd ar gael yng Nghymru, nid oedd y gallu ffisegol ar gael. Dywedodd



grŵp arall mai lleiafrif y myfyrwyr oedd yn cael problemau dod o hyd i gwrs addas, ond bod problemau o ran rhai pobl ifanc yn gorfod teithio'n bell i ddiwallu eu hanghenion a bod problemau ynghylch darpariaeth iaith Gymraeg.

Nododd un grŵp nad oes unrhyw **leoedd preswyl** ar gael i bobl ifanc yng Nghymru, ac felly byddai'n rhaid i fyfyrwyr y mae arnynt angen lle preswyl mewn ysgol neu goleg ar gyfer addysg ôl-16 fynd i Loegr, gan arwain o bosibl at symud y person ifanc o'i gymuned, ei deulu a'r gwasanaethau ehangach sydd ar gael i bobl ifanc o fewn ei awdurdod lleol.

Roedd amrywiaeth y **cwricwlwm** sydd ar gael i ddysgwyr AAA ôl-16 yn fater a godwyd gan rai o'r cyfranogwyr a oedd yn teimlo y dylai mwy o gyrsiau 'galwedigaethol' fod ar gael. Nododd grŵp arall fod tangynrychiolaeth o gyrsiau sydd ar gael i'r rheini sydd â chyflyrau penodol, e.e. Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig. Gwnaethant hefyd sôn am bwysigrwydd sicrhau y bydd y ddarpariaeth AAA ôl-16 yn addas ar gyfer y dyfodol fel bod gwasanaethau mewn blynyddoedd i ddod yn briodol i'r rheini sydd â'r anabledau corfforol a gwybyddol mwyaf difrifol. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o leoedd sydd ar gael i bobl ifanc o'r fath.

Ymhlith y materion eraill a godwyd roedd y '**maes amhendant' o ran pobl ifanc ôl-16 nad oes ganddynt ddatganiadau**; y dylai pwysigrwydd o ran darpariaeth AAA o ran rhoi seibiant i rieni gael ei adlewyrchu yn y Bil; ac nad oedd llawer o rieni'n barod i dderbyn fod gan blentyn ddatganiad AAA a'u bod yn gofyn i'w plant gael dilyn addysg prif ffrwd, nad oedd bob amser yn bosibl.

At hynny, cododd nifer o faterion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a oedd wedi'u crybwyll yn flaenorol. Cafodd y mater o ran y **cyfnod pontio** rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion ei grybwyll eto, gyda dau grŵp yn ailadrodd y manteision o gael 'gweithiwr allweddol' ar y cam hwn. Roedd teimlad fod angen i'r cyfnod pontio fod yn ddi-dor. Yn yr un modd, cafodd y pwysigrwydd o weithio amlasiantaethol gwell, consortia a chydweithredu gwell hefyd ei ystyried yn bwysig gan dri o'r grwpiau. Cafodd y fantais o ddealltwriaeth arbenigol canolfannau rhanbarthol Gyrfa Cymru ei chrybwyll hefyd.

Cwestiwn 6 – Pa newidiadau yr hoffech chi weld Llywodraeth Cymru yn eu gwneud?

Ymatebodd nifer o'r grwpiau i'r cwestiwn hwn mewn perthynas â'r Bil. Ailadroddodd un y ffaith y byddai angen cynnal **asesiad risg ariannol llawn** mewn perthynas â hyfywedd y Bil, yn arbennig mewn perthynas â heriau posibl a thribiwnlys pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu yn erbyn asesu ar gyfer AAA. Galwodd grŵp arall am **ymgyngori** yn fwy cadarn, yn arbennig â rhieni pobl ifanc



sydd ag AAA. Galwodd cyfranogwyr eraill am gael gadael digon o amser rhwng cyflwyno pob diwygiad fel bod y gwasanaethau dan sylw yn cael amser i ddadansoddi eu heffeithiolrwydd.

Nododd grwpiau eraill yr hoffent weld **cysondeb yn null deddfwriaethol Llywodraeth Cymru**; y dylai deddfwriaeth gynnwys codau ymarfer, fframweithiau, Offerynnau Statudol a gwaith trawsasiantaethol. Nodwyd hefyd y mater o ran bod yn gydnaws â'r deddfwriaeth yn Lloegr ar gyfer myfyrwyr sy'n croesi'r ffin i astudio.

Mewn perthynas â'r cwricwlwm, galwyd ar Lywodraeth Cymru i roi pwysau ar golegau i ddarparu amrywiaeth ehangach o gyrsiau a chwricwlwm mwy addas i fyfyrwyr AAA/AngHENion Dysgu Ychwanegol ôl-16. Roedd grŵp arall am i Lywodraeth Cymru ddeall yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithio amlasiantaethol. Cafwyd sylwadau hefyd gan un grŵp fod y cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau AAA/AngHENion Dysgu Ychwanegol arbenigol yn rhy anhyblyg ac y dylai fod yn haws gwneud cais amdano.

Cafwyd galwadau mwy cyffredinol hefyd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod gan awdurdodau lleol y gallu ariannol a ffisegol i gyflawni eu dyletswyddau o ran AAA ac i sicrhau y darperir digon o hyfforddiant i awdurdodau lleol.

Rhestr o grwpiau ffocws:

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint

